**CYFARFOD Y CYNGOR** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 21ain Chwefror 2018 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd A. R. James (Maer)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, S. Harris, S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, T. Thomas a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

**114. DECHRAU'R CYFARFOD**

Cychwynodd Caplan y Maer, y Parchedig Andy Grimwood, y cyfarfod trwy arwain pawb a oedd yn bresennol mewn gweddi.

**115. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr J. Ball, Mrs P. M. Jones a Mrs D. L. King.

**116. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Y Cyngor - 17eg Ionawr 2018 - Rhifau Cofnod 95-109

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. R. James ac eiliwyd gan y Cynghorydd B. Blakeley a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Pwyllgor Cynllunio - 17eg Ionawr 2018 - Rhifau Cofnod 44-47

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. S. Johnson a ***PHENDERFYNU*** eu bod yn gofnod cywir.

Cyfarfod arbennig y Cyngor - 7fed Chwefror 2018 - Rhifau Cofnod 110-113

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. R. James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Pwyllgor Cynllunio - 7fed Chwefror 2018 - Rhifau Cofnod 48-50

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Cadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol - 7fed Chwefror 2018 - Rhifau Cofnod 102-116

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd T. Thomas a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau ar gyfer gweithredu.*

## 117. ADRODDIAD Y MAER

Cyfeiriodd y Maer at yr adroddiad ac yn benodol at y Cyngor Tref yn cydnabod Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 100 mlynedd yn ôl, yn caniatáu i rai merched bleidleisio, ym Mhont y Ddraig (Dragon Bridge).

Dywedodd y Maer hefyd iddo fod allan ar 11eg Chwefror yn y bad achub o orsaf bad achub y Rhyl mewn dyfroedd eithaf tonnog, a'i fod wedi mwynhau yn fawr.

## 118. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

## 119. CYFLWYNIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH - YMGYNGHORIAD AR UWCH GYNLLUN Y RHYL

Croeswodd y Maer Ms Jo Sutton a Mr Mike Horrocks o Gyngor Sir Ddinbych a Ms Sarah Wheale o Pleydell Smithyman Limited i'r cyfarfod a'u gwahodd i annerch yr aelodau ar yr ymgynghoriad ar yr uwchgynllun.

Dywedodd Ms Wheale y byddai'r ymgynghoriad yn digwydd mewn dau ran; y cyntaf (yn rhedeg o nawr tan fi Mehefin) yn cysylltu gyda'r bobl iawn, i ofyn y cwestiynau iawn, gan ddefnyddio'r dulliau iawn ar yr adeg iawn; yr ail (ar ôl mis Mehefin) i ddarparu'r adborth iawn.

Byddai ffiniau ardal yr uwchgynllun yn 'feddal' gyda hyblygrwydd lle'r oedd yn ddoeth cael hynny, ac mai'r nod oedd sefydlu cymysgedd bywiog a chytbwys o ddefnyddiau yng nghanol tŷ dref, i wella rhwyddineb mynediad, llif cerddwyr a chreu awyrgylch ddymunol.

Dywedodd Ms Wheale nad oedd unrhyw beth wedi ei benderfynu a'u bod eisiau siarad gyda chymaint o bobl ag y bo modd (ysgolion, grwpiau ieuenctid, Canolfan y Rhosyn Gwyn, archfarchnadoedd, i enwi ond rhai) i gael proses ystyrlon gyda thryloywder a chyfanrwydd wrth ei chraidd, Nid ymarfer 'ticio blychau' oedd hwn.

Ni fyddai'r ymgynghoriad ar y ffurf arferol gyda chyfarfod cyhoeddus mwy ffurfiol, ond byddai'n broses symlach i annog mwy o gyfranogiad. Byddai pob sesiwn hefyd yn addas i'r grŵp arbennig dan sylw.

Roedd Cyngor Sir Ddinbych a Pleydell Smithyman Limited (PSL) yn awyddus i gadw mewn cysylltiad rheolaidd gyda'r Cyngor Tref.

Mewn ymateb i gwestiynau a sylwadau'r Aelodau, atebodd Ms Wheale a Mr Horrocks fel a ganlyn:

- Byddai'r 'darluniau' yn cael eu cynhyrchu ar ôl y cyfnod ymgyngori cyntaf ac y byddant yn mynd â nhw allan i'r gymuned ar ddiwedd y flwyddyn.

- Byddai'r uwchgynllun yn cael ei rannu gyda holl adrannau priodol Cyngor Sir Ddinbych yn y flwyddyn newydd, i sicrhau bod pawb yn gweithio tuag at yr un canlyniad.

- Bod PSL wedi cwblhau prosiectau llwyddiannus yn Wythenshawe ym Manceinion a Dudley yng Nghanolbarth Lloegr, ond mai dyma'r tro cyntaf iddynt weithio ar brosiect canol tref.

- Y byddai arweiniad cynllunio atodol yn cael ei gynhyrchu i fynd gyda'r Cynllun Datblygu Lleol a'r ddogfen uwchgynllun i arbed arian ac amser i bawb dan sylw.

- Eu bod yn deall y byddai trigolion y Rhyl efallai'n teimlo mai dim ond ymarfer ymgynghori arall oedd yr uwchgynllun, ac efallai y byddai amheuaeth, a dyma pam y byddai ail gyfnod y prosiect yn allweddol, o ran rhoi esboniad llawn a gonest o'r penderfyniadau a gymerwyd a pham.

- Eu bod eisoes yn siarad gyda'r gwersylloedd gwyliau.

- Eu bod eisoes yn gofyn am y cyllid gofynnol gan CSDd i gefnogi'n briodol ac ymrwymo i'r uwchgynllun, a oedd yn ffactor arall yn llwyddiant y prosiect.

- Ynghyd â'r nod hirdymor, byddent yn chwilio am fanteision cyflym hefyd, i barhau gyda'r momentwm, ac i ganiatáu i'r cyhoedd weld gwelliannau ar y ffordd a meithrin eu hyder yn y cynllun.

- Fel gyda threfi a dinasoedd eraill ledled y DU, byddai'r prosiect yn edrych i newid y ffocws yng nghanol y dref o fanwerthu i fyw.

- Eu bod yn cytuno na ddylai'r uwchgynllun godi disgwyliadau afrealistig, fel sydd wedi digwydd yn y gorffennol.

- Y byddent yn dod yn ôl at y Cyngor Tref yn fuan i gadw dialog.

Croeawodd yr aelodau y dull gwahanol a dychmygus o gynnal yr ymgynghoriad a mynegi eu brwdfrydedd a'u cefnogaeth.

Diolchodd y Maer i Ms Sutton, Ms Wheale a Mr Horrocks am eu presenoldeb.

**120. SESIWN AGORED**

Ar ddiwedd yr eitem uchod ***PENDERFYNWYD*** bod y cyfarfod yn parhau mewn sesiwn agored.

**121. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol mabwysiedig y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref Atodlen B (byddai rhestr o daliadau anrheolaidd yn cael ei rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'w ychwanegu i'r rhestr o gyflenwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r canlynol i gael eu talu a'u llofnodi gan ddau gynghorydd.*

*Taliadau Atodlen B i'w Cymeradwyo (1af - 13eg Chwefror 2018)*

| Cyflenwr | Manylion Cyflenwad | Rhif Taleb | Dyddiad | Swm £ |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ddinbych | Contract goleuadau 2017/18 | 430 | 02/02/18 | £11,397.60 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Contract goleuadau 2017/18 ychwanegol | 431 | 08/02/18 | £566.40 |
| Friends of the Cob | Cost dau docyn trên | 432 | 06/02/18 | £175.10 |
| Y Cynghorydd Mrs J. Chamberlain-Jones | Costau teithio i gyfarfod N&MWATC | 433 | 19/01/18 | £14.40 |
| Delwedd Ltd | Cynnal gwefan a chynnal a chadw blynyddol | 434 | 01/02/18 | £685.08 |
| **Cyfanswm Atodlen B** | | | | **£12,838.58** |

*A chymeradwywyd yr ychwanegiad canlynol i'r rhestr cyflenwyr cymeradwy:*

- Friends of the Cob

**122. YMGYNGHORIAD: LLYWODRAETH CYMRU – AROLWG O'R SECTOR CYNGHORAU TREF A CHYMUNED YNG NGHYMRU**

Awgrymodd Clerc y Dref bod yr eitem yn cael ei gohirio nes byddai ef a'r Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE wedi mynychu'r digwyddiad nesaf yn Wrecsam ar 7fed Mawrth 2018.

***PENDERFYNWYD*** *gohirio'r eitem.*

**123. DYDDIAD CYFARFOD ANFFURFIOL Y CYNGOR**

Er budd aelodau newydd, esboniodd Clerc y Dref mai pwrpas Cyfarfod Anffurfiol y Cyngor oedd cadarnhau pwy fyddai'n Faer a Dirprwy Faer ar gyfer y flwyddyn ddinesig nesaf 2018/19 a galluogi i ddymuniadau'r Maer newydd gael eu trefnu ar gyfer Noson Sefydlu'r Maer a gwahodd ei westeion ef a gwesteion y Dirprwy Faer newydd.

***PENDERFYNWYD*** *cynnal Cyfarfod Anffurfiol y Cyngor yn union ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ar 7fed Mawrth 2018.*

**124. EITEM ER GWYBODAETH: YSGOL BRYN HEDYDD**

Adroddodd Clerc y Dref bod swydd wag ar gyfer Llywodraethwr Ychwanegol ac awgrymodd y dylai unrhyw un sydd â diddordeb yn y swydd gysylltu gyda'r Cynghorydd T. Thomas (Llywodraethwr Ychwanegol presennol).

***PENDERFYNWYD*** *cydnabod yr wybodaeth.*

**125. EITEM ER GWYBODAETH: SIMABR FUSNES CLWYD STREET**

Dywedodd Clerc y Dref iddo dderbyn cais gan Siambr Fusnes newydd Clwyd Street i roddi cyflwyniad i gyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cais.*

**126. HOLI AC ATEB**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**127. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**128. GOLEUADAU AR BROMENAD Y RHYL**

Ymhellach i gofnod 113 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 7fed Chwefror 2018, cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) a gofyn bod argymhelliad y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol bod y Cyngor Tref yn gwneud cyfraniad o £17,275 i'r cynllun goleuadau £27,275, yn cael ei gymeradwyo'n ffurfiol.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor CSG.*

**129. EITEM SEFYDLOG – GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru.

**130. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer:………………………..

Dyddiad: …………………………..